

# Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad: Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau a Chanlyniadau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3627A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru:  
[swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English

# Cynnwys

Crynodeb o'r adroddiad	4
Yr hyn yr edrychom ni arno – cwmpas yr archwiliad hwn	4
Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn	5
Trefniadau adrodd ar berfformiad allweddol y Cyngor	5
Yr hyn a ganfuom: Yn gyffredinol, nid yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor	6
Argymhellion	9
Atodiadau	
Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano	10

## Crynodeb o'r adroddiad

- 1 Gwnaethom ystyried safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a'r wybodaeth am ganlyniadau a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau (uwch arweinwyr), a sut y defnyddir yr wybodaeth hon.
- 2 At ei gilydd, canfuom nad yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn gyffredinol yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor.
- 3 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i gryfhau'r wybodaeth a roddir i uwch arweinwyr.

## Yr hyn yr edrychom ni arno – cwmpas yr archwiliad hwn

- 4 Gwnaethom ganolbwyntio ar yr wybodaeth ar berfformiad a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau (uwch arweinwyr) ynghylch safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau, a sut y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio. Ni wnaethom gynnal adolygiad llawn o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor nac adolygiad manwl o ansawdd y data y mae'r Cyngor yn ei gasglu. Ni chanolbwyntiodd yr adolygiad ychwaith ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ynghylch newidiadau penodol i wasanaethau nac ynghylch datblygu polisiau a strategaethau.
- 5 Rydym wedi nodi ein cwestiynau archwilio a'n meini prawf archwilio yn **Atodiad 1**. Mae'r meini prawf archwilio yn y bôn yn nodi beth yw 'da' a'r hyn y byddem yn disgwyl ei ganfod.
- 6 Ar y cyfan, roeddem yn ceisio canfod a oedd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei rhannu ag uwch arweinwyr i'w helpu i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisiau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, a pha mor dda y maent yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r canlyniadau y mae'n gweithio tuag atynt. Roeddem hefyd yn ceisio canfod a oedd uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd a gweithredu lle bo angen i wella canlyniadau.
- 7 Mae hyn yn rhan bwysig o drefniadau i sicrhau bod cynghorau'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Mae hefyd yn ffordd bwysig y gall y Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn gweithredu yn unol â'r dull 'ymgysylltu' o weithio wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Heb yr wybodaeth hon, mae'n anodd gweld sut y gall uwch arweinwyr ddeall a yw eu polisiau a'u gweithredoedd yn cael yr effaith a fwriedir ac yn gwneud newidiadau pan nad yw hyn yn digwydd. Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gydag Aelod y Cabinet ac uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb arweiniol dros drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn.

- 8 Aethom ati i ateb y cwestiwn '**A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?** Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau?
  - A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ganlyniadau gweithgareddau'r Cyngor?
  - A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir?
  - A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau?
  - A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau?

## Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn

- 9 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 10 Rydym yn ceisio:
- cael sicrwydd bod yr wybodaeth am berfformiad y mae'r Cyngor yn ei darparu i uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau;
  - cael sicrwydd bod yr wybodaeth hon yn ffurfio rhan o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau a chymhwysu'r egwyddor datblygu cynaliadwy; a
  - nodi cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

## Trefniadau adrodd ar berfformiad allweddol y Cyngor

- 11 Adroddiadau ar berfformiad allweddol y Cyngor yw ei adroddiadau perfformiad chwarterol a'i adroddiad ar berfformiad blynyddol. Mae'r rhain yn rhoi'r prif gyfle i aelodau a'r cyhoedd ddeall pa mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio. Mae'r Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ystyried yr adroddiadau ar berfformiad chwarterol. Maent yn cynnwys manylion am berfformiad gwasanaethau, cynnydd tuag at amcanion llesiant a gwybodaeth fonitro ariannol. Mae aelodau hefyd yn derbyn adroddiadau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad, er enghraifft, adroddiadau gwasanaethau.
- 12 Cyhoeddodd y Cyngor ei Hunanasesiad Blynyddol 2021-22 ym mis Chwefror 2023. Cyn hyn, bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei ystyried ym mis Rhagfyr 2022, yn unol â gofynion Deddf Llywodraethu Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

- 13 Mae pob maes gwasanaeth yn llunio hunanwerthusiad blynyddol. Nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi'r dogfennau hyn, ond fe'u hadolygir gan yr Aelodau Cabinet perthnasol. Mae'n ofynnol i'r hunanwerthusiadau gwasanaethau gael eu cymeradwyo gan Gyfarwyddwr y Grŵp a bod yn destun her gan y Prif Weithredwr.
- 14 Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar y mecanweithiau adrodd ar berfformiad allweddol hyn.

## Yr hyn a ganfuom: yn gyffredinol nid yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor

### **Mae gwybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr ar safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn gyfyngedig, felly mae'n anodd gweld sut y gallant ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn llawn i'w galluogi i reoli perfformiad**

- 15 Yn gyffredinol, nid yw adroddiadau ar berfformiad cyhoeddus y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, ar wahân i rai enghreifftiau cyfyngedig. Felly, mae'n anodd gweld sut y byddai uwch arweinwyr yn gallu deall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.
- 16 Mae'r templed ar gyfer hunanwerthusiadau gwasanaeth yn cynnwys awgrymiadau a gynlluniwyd i helpu i nodi safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Gwelsom enghreifftiau o fewn yr hunanwerthusiadau hynny a adolygwyd gennym a oedd yn nodi safbwynt defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, mae maint ac ehangder yr wybodaeth ar safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn amrywio gyda rhai hunanwerthusiadau gwasanaeth yn cynnwys mwy o fanylion ac enghreifftiau nag eraill. At ei gilydd, mae'r wybodaeth a ddarperir yn gymharol gyfyngedig ac felly nid yw'n galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn llawn. Lle ceir gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau, nid yw hyn wedyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau ar berfformiad chwarterol. Roedd rhai hunanwerthusiadau yn cyfeirio at ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ond ni aethant ymlaen i ddarparu gwybodaeth am yr hyn a ddywedodd yr ymgysylltiad hwnnw wrth y Cyngor a sut y defnyddiodd y Cyngor yr wybodaeth hon. Mae hwn yn gyfle a gollwyd i roi gwybodaeth i uwch arweinwyr a fyddai'n eu helpu i ddeall barn defnyddwyr gwasanaethau ac i weithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.

- 17 Roedd adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 yn destun gwaith craffu a chafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ac roedd yn cynnwys rhai enghreifftiau da o wybodaeth am safbwynt ystod amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaethau. Gwelsom hefyd enghreifftiau cadarnhaol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio deall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau sy'n cael eu rhannu â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Roedd hyn yn cynnwys yr arolwg 'dod yn rhan o bethau' ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal a'r adroddiad blynyddol ar ansawdd gofal maeth. Byddai'r wybodaeth hon yn helpu uwch arweinwyr i ddeall sut roedd defnyddwyr yn derbyn gwasanaethau a pholisïau gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor.

### **Mae'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar allbynnau a gweithgareddau yn hytrach na gwerthuso eu heffaith**

- 18 Er gwaethaf rhai eithriadau, mae adroddiadau perfformiad craidd y Cyngor yn gyffredinol yn rhoi naratif o weithgareddau ac allbynnau yn hytrach na rhoi asesiad o gynnydd o'i gymharu â'r canlyniadau y mae'r Cyngor yn ceisio eu cyflawni. Mae hyn yn cyfyngu ar allu uwch arweinwyr i ddeall effaith gweithgareddau'r Cyngor a gweld a yw'n cyflawni ei amcanion.
- 19 Mae'r hunanwerthusiadau gwasanaeth a adolygwyd gennym yn cynnwys rhai enghreifftiau o wybodaeth am ganlyniadau. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr hunanwerthusiadau hyn yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall effaith a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor.
- 20 Mae adroddiad diweddar Estyn<sup>1</sup> yn cynnwys argymhelliad ynghylch hogi dulliau gweithredu o ran hunanwerthuso. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi: "Mewn rhai achosion, mae hunanwerthuso yn canolbwyntio ar gwblhau camau gweithredu yn hytrach nag effaith y gwaith hwn." Mae ein canfyddiadau o'r gwaith adolygu hwn yn cyd-fynd â'r canfyddiad hwn.

### **Nid oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod y data ar berfformiad sy'n adlewyrchu safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a gwybodaeth am ganlyniadau yn gywir**

- 21 Nid oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau ansawdd data ar wybodaeth perfformiad sy'n ymwneud â chanlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau fel mater o drefn. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed pan gyflwynir gwybodaeth am berfformiad i uwch arweinwyr, y gallai fod yn anghywir, sy'n cynyddu'r risg o gamau gweithredu ac adnoddau'n cael eu defnyddio ar sail gwybodaeth anghywir.

<sup>1</sup> Estyn, Adroddiad ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ionawr 2023

- 22 Mae gan y Cyngor dimau ansawdd data ar waith yn ei gyfarwyddiaethau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r timau hyn yn adolygu ac yn glanhau data sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau ar berfformiad chwarterol. Ond nid ydynt yn gwirio cywirdeb safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a gwybodaeth am ganlyniadau. Fel y nodir uchod, cyfyngir gwybodaeth o'r fath yn yr adroddiadau ar berfformiad chwarterol beth bynnag.
- 23 Mae tîm Archwilio Mewnol y Cyngor eisoes wedi cynnal gwiriadau ansawdd data cyn y pandemig. Mae Archwilio Mewnol yn bwriadu cynnal adolygiad ansawdd data yn ystod 2023-24. Gall hyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r bylchau presennol yn nhrefniadau'r Cyngor.

### **Gan fod yr wybodaeth a ddarperir am ganlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau yn gyfyngedig, mae'r graddau y gall y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau hefyd yn gyfyngedig.**

- 24 Fel y nodir uchod, ein prif ganfyddiad yw nad yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau gweithgareddau'r Cyngor. Felly, mae'n dilyn, yn rhesymegol, bod y graddau y mae'r Cyngor yn gallu defnyddio safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a gwybodaeth am ganlyniadau i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau o'r wybodaeth hon am berfformiad yn gyfyngedig.
- 25 Pan ddaethom o hyd i enghreifftiau o'r Cyngor yn darparu gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau, gwelsom rai enghreifftiau o'r Cyngor wedyn yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud newidiadau. Er enghraifft, mae adroddiad blynyddol cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn mynd i'w wneud mewn ymateb i'r cwynion a godwyd.

### **Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud gwell defnydd o'r wybodaeth sydd ar gael iddo**

- 26 Yn ei adroddiad hunanasesu blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023, mae'r Cyngor wedi nodi bod angen iddo wneud gwell defnydd o'r wybodaeth sydd ar gael iddo ac i gryfhau ei ymgysylltiad a'i ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau. Byddai ein hadolygiad yn cefnogi hyn.
- 27 Wrth i'r Cyngor wneud hyn, bydd yn bwysig iddo sicrhau bod ei drefniadau yn helpu uwch arweinwyr i feincnodi a chymharu ei drefniadau â threfniadau sefydliadau eraill. Rydym wedi gwneud sylwadau o'r blaen ynghylch y ffaith bod hon yn elfen bwysig o'r trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Bydd gwneud hyn hefyd yn helpu'r Cyngor i ddeall a dysgu wrth ganfod sut mae cynghorau eraill yn darparu gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau. Rydym yn gobeithio gallu darparu rhai enghreifftiau yn ein hadroddiad cryno cenedlaethol ar ôl cwblhau ein gwaith mewn cynghorau eraill.



- 28 Rydym yn cydnabod bod targedau, tueddiadau a gwybodaeth gymharol yn rhywbeth y gwnaeth y Cyngor ei gynnwys yn ei adroddiadau perfformiad cyn y pandemig, a'i fod wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i beidio â gwneud hyn yn ystod y pandemig. Mae'r Cyngor wedi dweud ei fod yn faes y bydd yn mynd i'r afael ag ef ar gyfer 2023-24.

## Argymhellion

### Arddangosyn 1: argymhellion

A1 Gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau:

- dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau.

A2 Gwybodaeth am ganlyniadau:

- dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'r canlyniadau a fwriadwyd.

A3 Trefniadau i wirio ansawdd a chywirdeb y data:

- Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun fod ganddo drefniadau cadarn i wirio ansawdd a chywirdeb yr wybodaeth y mae'n ei darparu i uwch arweinwyr sy'n ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

### Arddangosyn 2: cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

Lefel 1	
A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?	
Lefel 2	Meini prawf archwilio <sup>2</sup> (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)
2.1 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau?	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r wybodaeth:<ul style="list-style-type: none"><li>– yn berthnasol i'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod iddo'i hun;</li><li>– yn ddigon i alluogi dealltwriaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau;</li><li>– yn ddigon i ddarparu dealltwriaeth o gynnydd tuag at y canlyniadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni;</li><li>– yn deillio o amrywiaeth y defnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig;</li><li>– yn cael ei defnyddio i lywio cymariaethau â pherfformiad cyrff tebyg lle bo hynny'n berthnasol.</li></ul></li><li>• Mae'r Cyngor wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu ar ba wybodaeth i'w chasglu.</li></ul>

<sup>2</sup> Mae ein meini prawf archwilio wedi'u llywio gan ein gwybodaeth gronol o waith archwilio blaenorol, yn ogystal â'r hierarchiaeth cwestiynau a'r dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i gefnogi ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Lefel 1

A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?

## Lefel 2

### Meini prawf archwilio<sup>2</sup> (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)

2.2 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ganlyniadau gweithgareddau'r Cyngor?

- Mae'r wybodaeth yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth i roi golwg gyfannol ar gynnydd.
- Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd yn y tymor byr, canolig a hir.
- Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro'r ddarpariaeth o ganlyniadau sy'n cwmpasu sawl maes gwasanaeth a/neu sefydliad.

2.3 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir?

- Mae gan y Cyngor drefniadau clir i wirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu i uwch arweinwyr.
- Lle nodir gwendidau o ran ansawdd data, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw.

2.4 A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau?

- Lle nodir perfformiad gwael, mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau/ymyriadau.
- Mae tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella ei gynnydd tuag at ei ganlyniadau o ganlyniad i ymyriadau.

2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau?

- Mae'r Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.
- Mae'r Cyngor yn cymharu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu gyda'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg i nodi cyfleoedd i gryfhau ei drefniadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.  
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.